Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Sut i gyfrifo gwerth hawliad gwahaniaethu

Canllaw i feintoli hawliadau gwahaniaethu mewn achosion mynediad i wasanaethau

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Mae'r canllaw canlynol yn ceisio cynorthwyo unigolion i ddeall sut mae llys sirol yng Nghymru neu Loegr yn debygol o feintoli beth yw gwerth hawliad llwyddiannus am wahaniaethu. Mae'r canllaw hwn yn ffocysu ar y gwahaniaethu y gall pobl wynebu yn eu bywyd o ddydd i ddydd, er enghraifft, wrth siopa, ymweld â lleoliad (fel theatr, bwyty neu westy) neu debyg (achosion gwasanaethau). Gellid dilyn yr un egwyddorion mewn mathau eraill o achosion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, megis hawliadau eiddo neu gyflogaeth.

Ymagwedd gyffredinol y llys

Mae faint fydd y llys yn ei ddyfarnu yn ddibynnol ar ffeithiau ac amgylchiadau pob achos unigol, a bydd y llys yn edrych ar y rhain yn ofalus.

Tra bydd ffeithiau pob achos yn wahanol, mae'r egwyddor fydd y llys yn ei ddilyn wrth benderfynu ar lefel dyfarniad iawndal yr un fath bob tro: bydd y llys yn ceisio rhoi'r hawlydd yn ôl yn yr un sefyllfa (i'r fath raddau ag sy'n bosibl) ag y byddai wedi bod pe na fyddai'r gwahaniaethu wedi digwydd.

Bydd hyn yn cynnwys swm o iawndal am niwed i deimladau a gall gynnwys unrhyw golled ariannol arall a wynebwyd o ganlyniad i'r gwahaniaethu dan sylw, er enghraifft, os gwrthodir mynediad i ddefnyddiwr cadair olwyn ar drên ac mae'n gorfod dal trên hwyrach gan deithio yn ystod oriau brig (a phrynu tocyn amser brig), bydd ganddo hawl i ddyfarniad ar gyfer niwed i deimladau ac am gost y tocyn amser brig. Mewn achosion eraill, dim ond gyfer niwed i deimladau y gwneir dyfarniad, er enghraifft, os yw siopwr yn gwrthod gwasanaeth i rywun oherwydd ei hil. Y nod yw talu iawndal am niwed gwirioneddol i deimladau nid i gosbi'r darparwr gwasanaeth.

Niwed i deimladau

Y raddfa Vento

Mae yna gryn dipyn o gyfraith achos (penderfyniadau blaenorol y llysoedd a thribiwnlysoedd) ynghylch y lefelau priodol o niwed o deimladau. Er nad oes terfyn ffurfiol ar faint all llys ei ddyfarnu, mae'r uwch lysoedd apêl wedi sefydlu amrediad o ddyfarniadau ar gyfer niwed i deimladau a elwir yn '**raddfa Vento**' (**Vento** yw enw'r achos a sefydlodd y raddfa).

Mae'r raddfa Vento wedi ei newid yn achlysurol i ystyried y raddfa chwyddiant; gwnaethpwd y newid mwyaf diweddar ym Mawrth 2017. Ar hyn o bryd, mae yna dri band dyfarniad, fel a ganlyn:

Band is:	Band canol:	Band uwch:
£900 i £8,600	£8,600 i £25,700	£25,700 i £42,900

Bydd y bandiau hyn yn cael eu hadolygu eto ym Mawrth 2019 gan Lywyddion y Tribiwnlys Cyflogaeth, ac yn flynyddol wedi hynny. Bydd unrhyw ganllaw newydd yn dod yn weithredol parthed hawliadau a gyflwynir ar neu wedi 6 Ebrill ym mhob blwyddyn. Gallwch wirio os oes yna unrhyw ganllaw newydd ar **wefan y Llysoedd a Thribiwnlysoedd**.

Pa fand o'r raddfa Vento sy'n berthnasol?

Yn achos y Vento, esboniodd y Llys Apêl y gwahaniaethau rhwng y tri band:

- Mae'r band is yn ymwneud ag 'achosion llai difrifol' ble mae'r weithred o wahaniaethu yn ddigwyddiad unigryw neu untro.
- Mae'r band canol yn ymwneud ag achosion difrifol nad ydynt yn syrthio o fewn y band uwch.
- Mae'r band uwch yn berthnasol i'r achosion mwyaf difrifol, er enghraifft, ble cafwyd ymgyrch faith o wahaniaethu ac/neu aflonyddu.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion gwasanaethau, mae'r gwahaniaethu yn debygol o fod yn ddigwyddiad unigryw, ac mae'r dyfarniad yn debygol o fod yn y band is o £900 i £8,600. Mae'r band hwn yn eang, gan roi hyblygrwydd i'r llys i unioni'r iawndal yn unol â'r hyn sy'n deg a chyfiawn ym mhob achos. Bydd y llys yn ystyried yr holl dystiolaeth, yn cynnwys tystiolaeth yr hawliwr ynghylch effaith y gwahaniaethu arnynt, cyn penderfynu ar ddyfarniad priodol o fewn y band hwn.

Yn achos *Purves v Joydisc Ltd yn yr Alban* [2003 SLT (Sh Ct) 64], fe ystyriodd y llys ddyfarniad o niwed i deimladau ar gyfer digwyddiad unigryw. Dywedodd ffrind wrth ddyn dall, oedd wedi cael gwybod dros y ffôn, na fyddai ei gi tywys yn cael ei ganiatáu mewn bwyty. Dyfarnodd y llys £1,000 i'r hawliwr gan wneud y sylwadau canlynol:

- Bydd y gwahaniaethu yn cael ei ystyried i fod yn llai difrifol pe na fyddai wedi digwydd mewn lle cyhoeddus neu ym mhresenoldeb y person anabl (yn yr achos hwn, dywedwyd wrtho amdano gan ffrind).
- Fel arfer byddai ymddiheuriad y ffordd fwyaf effeithiol o liniaru difrifoldeb y gwahaniaethu. Yn yr achos Purves, nid oedd esboniad nac ymddiheuriad wedi ei gynnig o gwbl.
- Mae'r dyfarniad yn adferol heb fod yn gosb; mae'n gyffredinol debyg i'r ystod o ddyfarniadau mewn achosion anaf personol.
- Ni ddylai fod mor isel fel ei fod yn lleihau'r parch tuag bolisi'r ddeddfwriaeth.

Tra bod yr achos Purves yn achos anabledd penodol, ac wedi ei benderfynu cyn yr achos Vento, mae'n dal i fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer meintoli.

Mae dyfarniadau ar gyfer mathau tebyg o achosion gwahaniaethu unigryw sydd wedi eu penderfynu'n fwy diweddar wedi bod ar oddeutu'r un lefel o ddyfarniad – er enghraifft, dyfarnodd llys £900 i fenyw anabl yn 2016, wedi gwrthod mynediad iddi i sba gyda'i chi tywys.

Yn achos *Howe v JD Wetherspoon* [(2CL01225)], a benderfynwyd yn 2015, gwrthodwyd mynediad i grŵp a oedd wedi mynychu'r Gynhadledd Teithwyr Gwyddelig flynyddol i'r bar Wetherspoon gerllaw. Llwyddont mewn achos gwahaniaethu ar sail hil a dyfarnodd y barnwr £3,000 yr un iddynt.

Wrth benderfynu ar y swm o £3,000, cymharodd y barnwr driniaeth yr hawlwyr yn Howe, i driniaeth yr hawliwr yn *Kemeh v y Weinyddiaeth Amddiffyn* ([2014] EWCA Civ 9). Yn achos Kemeh cymeradwyodd y Llys Apêl ddyfarniad o £6,500 i'r hawliwr a oedd bod yn destun un sarhad hiliol unigol ble roedd yna nodweddion gwaethygol. Roedd y gwahaniaethu yn achos Howe hefyd yn un digwyddiad unigol o wahaniaethu ar sail hil ac felly nid oedd yr hawlwyr wedi eu darbwyllo, ond nid oedd yna unrhyw nodweddion gwaethygol ac fe gasglodd y barnwr fod dyfarniad is yn briodol.

Beth fyddai'n cyfiawnhau dyfarniad uwch?

Tra bydd y llys yn asesu dyfarniad iawndal am niwed i deimladau mewn ffordd wrthrychol, bydd dehongliad ac adwaith unigol yr hawliwr yn ffactor bwysig i'r llys ystyried. Po fwyaf y bydd yr ymddygiad yn aflonyddu'r unigolyn, y mwyaf difrifol y bydd y llys yn debygol o ystyried y gwahaniaethu, a'r mwyaf y bydd y dyfarniad ar gyfer niwed i deimladau. Ble mae gweithred unigryw o wahaniaethu yn arbennig o ddarostyngol neu ddifrifol, ac mae'r dioddefwr yn dioddef goblygiadau difrifol o ganlyniad, gellid cyfiawnhau dyfarniad yn y bandiau uwch.

Fel arfer, bydd y llys angen tystiolaeth eithaf manwl ynghylch difrifoldeb yr achos cyn y byddai'n barod i ddyfarnu swm sylweddol uwch.

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Ble defnyddir iaith arbennig o anfoesgar neu ansensitif gan y sawl sy'n gwahaniaethu.
- Ble mae'r gwahaniaethu yn digwydd mewn lle cyhoeddus o flaen nifer o aelodau'r cyhoedd, ac felly mae'n fwy tebygol o gael ei ystyried i fod yn ddarostyngol.
- Ble mae'r mater yn ymwneud ag agwedd breifat neu bersonol o fywyd y dioddefwr, er enghraifft arferion perfedd person anabl gyda chlefyd Crohn, neu faterion yn ymwneud ag agweddau personol bywyd rhywiol y dioddefwr neu rannau o'i gorff.
- Ble mae'r dioddefwr gwahaniaethu yn dioddef o iselder neu'n mynd yn wael o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd.

Yn achos 2009 *Allen v Royal Bank of Scotland* (7SE51122), nid oedd Mr Allen yn gallu defnyddio ei gangen leol am gyfnod hir oherwydd nad oedd yn hygyrch iddo fel defnyddiwr cadair olwyn. Roedd wedi ei gyfeirio at wasanaethau amgen a pheiriannau arian nad oedd yn gallu eu defnyddio, ac wedi derbyn gwasanaeth yn y stryd. Dyfarnwyd £6,500 iddo (yn bell o fewn y band canol Vento ar y pryd) ar y sail fod y gwahaniaethu wedi bod yn barhaus am gyfnod hir ac wedi achosi cywilydd.

Er bod rhai enghreifftiau o ddigwyddiadau unigol yn cael eu hystyried i fod yn ddigon difrifol i haeddu dyfarniad o fewn band canol y raddfa Vento, mae penderfyniadau blaenorol yn dangos fod y rhain yn dueddol o fod yn achosion cyflogaeth, ble mae yna berthynas fwy manwl nag sydd rhwng cwsmer a darparwr gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes rheol na all dyfarniad am niwed i deimladau mewn achos gwasanaethau fyth fod mewn band uwch. Bydd yn dibynnu bob tro ar ffeithiau ac amgylchiadau pob achos.

Sut mae profi niwed i deimladau?

Bydd casgliadau a wneir yn y llys mewn unrhyw achos yn seiliedig ar y dystiolaeth mae'n weld a chlywed ar ffurf dogfennau ac/neu dystiolaeth tystion. Yn gyffredinol, bydd y llys yn rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol wrth benderfynu ar y mesur priodol o iawndal i ddyfarnu:

- Difrifoldeb y gwahaniaethu ei hun. Bydd ffactorau perthnasol yn cynnwys beth a ddwedwyd neu a wnaethpwyd, sut y'i dywedwyd neu gwnaethpwyd, p'un ai'n gyhoeddus neu'n breifat.
- Tystiolaeth y dioddefwr gwahaniaethu, yn cynnwys effaith y gwahaniaethu arno/arni.
- Unrhyw dystiolaeth feddygol o effaith y gwahaniaethu ar yr unigolyn.

Tystiolaeth y dioddefwr gwahaniaethu

Mae tystiolaeth y dioddefwr ynghylch effaith y gwahaniaethu ar ei deimladau a llesiant yn hynod bwysig. Ble mae dioddefwr yn gallu rhoi dirnadaeth i'r llys o sut yr achoswyd niwed i'w deimladau, gall hyn fod yn sail ar gyfer dyfarniad uwch. Gallai dirnadaeth o'r fath gynnwys:

- Sut gwnaeth y digwyddiad i'r unigolyn deimlo pan ddigwyddodd ac yn syth wedyn.
- Am ba hyd mae wedi effeithio arno.
- A yw wedi achosi iddo deimlo'n fwy gofidus am bethau penodol yn hytrach na theimlad cyffredinol o ofid neu siom.
- A yw wedi ei atal rhag gwneud pethau y byddai wedi gwneud fel arall, ac am ba hyd.

Efallai y bydd pobl wahanol wedi eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol, a bydd y llys yn ystyried hynny, ar yr amod ei fod yn fodlon nad yw'r dioddefwr wedi gorliwio ei dystiolaeth.

Gall unigolion ei chael yn anodd siarad am eu teimladau, a dylai'r llys ddangos cydymdeimlad o ran hyn, ond mae'n bwysig cofio mai dim ond ar sail y dystiolaeth sydd ar gael y gall y llys wneud penderfyniad, ac na all ddyfalu sut mae'r digwyddiad wedi effeithio'n bersonol ar yr unigolyn. Dim ond os oes ganddo ddarlun mor gyflawn â phosibl o'r digwyddiad a'i effaith y gall y llys benderfyni ar wir werth yr achos.

Tystiolaeth feddygol (ble fo'n briodol)

Yn gyffredinol, nid oes angen tystiolaeth feddygol oni bai fod y dioddefwr wedi datblygu symptomau o ganlyniad i'r gwahaniaethu, megis iselder; bydd yr unigolyn yn cael cyfle i ddweud wrth y llys yn uniongyrchol am hyn. Bydd hefyd yn helpu'r llys os oes tystiolaeth feddygol ategol ar gael; yn aml mae hyn yn ddim mwy na llythyr gan feddyg teulu yn disgrifio symptomau a thriniaeth feddygol yr unigolyn. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol y symptomau, y mwyaf o dystiolaeth fydd y llys eisiau ei weld cyn ystyried swm mwy sylweddol o iawndal. Efallai y bydd achosion difrifol yn galw am adroddiadau gan feddygon arbenigol yr unigolyn neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, a dylai'r rhain ddisgrifio unrhyw gyswllt rhwng y symptomau a'r weithred o wahaniaethu ei hun.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar wefan y Comisiwn: **www.equalityhumanrights.com**

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch, â'r **Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb**, gwasanaeth sy'n annibynnol ac am d dim.

Gwefan	**www.equalityadvisoryservice.com**
Ffôn	**0808 800 0082**
Ffôn testun	**0808 800 0084**
Oriau	**09:00 i 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)**
	10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)
Post	**LLINELL GYMORTH FREEPOST EASS FPN6521**

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: **correspondence@equalityhumanrights.com.** Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Os ydych chi'n gynghorydd ac wedi cael ymholiad ynghylch cyfraith cydraddoldeb neu hawliau dynol, cysylltwch â **Chefnogaeth Cynghorwyr yr EHRC:**

Ffôn:

- **Lloegr:** 0161 829 8190
- **Yr Alban:** 0141 228 5990
- **Cymru:** 029 2044 7790

E-bost:

- Englandadvisersupport@equalityhumanrights.com
- Scotlandadvisersupport@equalityhumanrights.com
- Walesadvisersupport@equalityhumanrights.com

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Microsoft Word o **www.equalityhumanrights.com**

I gael gwybodaeth am fynediad un o gyhoeddiadau'r Comisiwn mewn fformat amgen, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd: Ebrill 2018

ISBN: 978-1-84206-721-5

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn yn

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd: Ebrill 2018
ISBN: 978-1-84206-721-5

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission